



# Cyngor ar gyfer Hysbysebu Digwyddiadau a defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Wrth gynllunio digwyddiad, mae angen i chi greu brand y gellir ei adnabod yn hawdd. Rhan fawr o hyn yw meddwl am sut mae'r digwyddiad yn edrych, pa fath o gyfathrebiadau rydych chi'n eu hanfon allan, a phwy hoffech chi fod yn bresennol. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer cynllunio eich ymgyrch farchnata:

## *Y Pum Cwestiwn Allweddol*

Ystyriwch pwy, beth, ble, pryd a pham wrth fynd ati i drefnu cyhoeddusrwydd. Trafodwch hyn fel grŵp - dylai hyn fod yn fan cychwyn da i'ch ymgyrch.

## *Cynllunio*

Mae'n debyg mai hon yw'r elfen bwysicaf. Mae angen i chi ganiatáu o leiaf 3-4 wythnos ar gyfer hysbysebu eich digwyddiad, gyda therfynnau amser clir a rôl wedi'i phenodi ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor.

## *Llunio syniadau*

Dylech gwrdd â'ch pwyllgor a thrafod syniadau ar y cyd. Chwiliwch am ysbrydoliaeth, ystyriwch y dewisiadau ar gyfer dylunio a logo, neu ystyriwch eiriau/themâu y credwch fyddai'n briodol i'ch digwyddiad. Meddyliwch y tu allan i'r bocs - ceisiwch feddwl am ffyrdd creadigol o gynyddu ymwybyddiaeth o'ch brand.

## *Arddull neu frand*

Mae "brand" yn cyfeirio at nodwedd sy'n gwneud yr hyn sydd gennych chi i'w gynnig yn wahanol i beth sydd gan bobl eraill. Gall hyn gynnwys bod â lliw, logo neu ymadrodd penodol, a defnyddio hyn ym mhob cyhoeddusrwydd. Y nod yw creu rhywbeth sy'n amlwg yn berthnasol i'ch digwyddiad.

*Cyngor: Mae gan Wix ddyfais ar gyfer llunio logo am ddim (<https://www.wix.com/logo/maker>) ac mae gan Canva (<https://www.canva.com/>) dempledi dylunio gwych.*

## *Amserlen*

Faint o amser fydd yn ei gymryd i ddylunio eich celfwaith? Pryd ddylech chi bostio eich digwyddiad Facebook? Faint o amser fydd yn cymryd i argraffu eich posteri? a.y.b.

## *Mwynhewch eich hun!*

Dylai eich brand fynegi'n glir eich cyffro ynghylch eich digwyddiad. Mwynhewch y broses - rydych chi'n rhannu rhywbeth rydych chi'n angerddol yn ei gylch gyda'ch ffrindiau a'ch cyd-fyfyrwyr, ac maen nhw eisiau cael eu cyffroi cymaint â chi!

## **Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol o hysbysebu a hyrwyddo eich clwb/cymdeithas. Rhan fawr o gael pobl i ddod i ddiwyddiad yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohono. Mae myfyrwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol bob dydd; defnyddiwch hyn er mantais i chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw pawb yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, felly dylid ei ddefnyddio ar y cyd â sianelau eraill i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl. Yn ogystal, mae'n syniad da cynnwys yr enwau a ddefnyddir ar gyfer cyfryngau cymdeithasol eich cymdeithas neu ddiwyddiad yn y deunyddiau hyrwyddo printiedig ar gyfer eich digwyddiad er mwyn annog cyfranogiad ar draws sawl platfform.





Yn gyffredinol, mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ledaenu ymwybyddiaeth o'ch gweithgareddau a'ch grŵp yn gyffredinol. Dyma rai o'r llwyfannau a awgrymir eu defnyddio:

### *Facebook*

Mae grŵp Facebook y gall pobl 'ymuno' ag e yn dda ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar y gweill gyda'ch aelodau. Mae digwyddiadau Facebook yn ffordd wych o ennyn diddordeb yn y pethau rydych chi'n eu trefnu; mae ganddynt nodwedd gyfleus ar gyfer gwahodd pobl, gan eich galluogi i fesur lefel diddordeb. Mae'n ffordd hawdd o gyrraedd nifer fawr o bobl - ond cofiwch nad yw'r niferoedd sy'n dangos diddordeb o reidrwydd yn adlewyrchu nifer y bobl sy'n troi allan ar y diwrnod. Ystyriwch a ydych am wneud digwyddiad yn breifat (dim ond gwahodd aelodau'r gymdeithas) neu'n gyhoeddus (lle gall unrhyw un fynychu).

### *Twitter*

Mae Twitter yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth o'ch cymdeithas trwy drydar am newyddion neu faterion cyfoes perthnasol sy'n ymwneud â'ch clwb/cymdeithas. Mae Twitter hefyd yn wych ar gyfer rhannu'r diweddaraf yn y fan a'r lle. Mae ail-drydar negeseuon aelodau a sefydliadau sydd o'r un anian â chi hefyd yn ffordd ardderchog o gynyddu ymgysylltiad.

### *Instagram*

Mae Instagram yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu lluniau o ddigwyddiadau a gweithgareddau rydych chi'n eu cynnal; mae hon yn ffordd wych o ddangos i bobl y math o bethau y mae eich cymdeithas yn eu gwneud. Mae hefyd yn ffordd dda o gael aelodau i deimlo'n gyffrous am ddigwyddiad os ydych chi'n darparu lluniau o'r digwyddiad wrth iddo ddatblygu. Gall hashnodau dynnu sylw at ddigwyddiad, ond nid o reidrwydd gan y gynulleidfa a fwriadwyd, felly targedwch y rhain yn ofalus. Gall straeon Instagram gael eu cysylltu â phroffil i ddangos digwyddiadau a gynhaliwyd yn y gorffennol gan eich clwb/cymdeithas.

### *Snapchat*

Gellir defnyddio Snapchat yn ystod digwyddiadau i rannu'r diweddaraf ac unrhyw enghreifftiau o ryngweithio â'r aelodau heb oedi, sy'n creu bwrlwm o gwmpas eich gweithgareddau. Yn ogystal â hynny, mae creu geofilters ar gyfer digwyddiadau yn ffordd wych o annog pobl i rannu a siarad am eich digwyddiad ar gyfryngau cymdeithasol.

Gweler y dudalen olaf am gyfarwyddiadau ar greu digwyddiad

### **UM Aber**

Mae gwefan yr Undeb hefyd yn cynnwys adran ddigwyddiadau ar ei phrif dudalen, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhyngweithio â hon i fesur diddordeb ymhlith. Hefyd, defnyddiwch sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Undeb:



@UMaberSU



@TimAberTeam

Am fwy o awgrymiadau gallwch fwrw golwg dros y dolenni canlynol:

[Canva – 10 ways to market your student club on campus](#)

[Kathryn LeBlanc – The Ultimate Guide on Marketing a Student Association](#)

[Social Report – 10 Ways Universities and Clubs Can Use Social Media to Better Connect with Students](#)





## Sut i greu digwyddiad ar wefan yr Undeb:

1. Mewngofnodwch ac ewch i dudalen eich cymdeithas
2. Cliciwch ar offer gweinyddol a dewiswch 'Digwyddiadau'
3. Dewiswch 'Ychwanegu digwyddiad newydd'
4. Cwblhewch y manylion; mae'n bwysig nodi:
  - Mae 'dyddiad ac amser' yn cyfeirio at y digwyddiad, ond mae 'dyddiadau arddangos' yn golygu'r dyddiadau y bydd y digwyddiad yn ymddangos ar y wefan.
  - Os yw'n ddigwyddiad sy'n para sawl diwrnod, ticiwch 'dangoswch ar bob diwrnod'.
  - Pan fyddwch chi'n mewnosod URL allanol, byddwch yn ofalus, oherwydd os ydych chi'n mynd i mewn i ddolen ar gyfer digwyddiad Facebook, bydd yn cyfeirio ymwelwyr yno'n awtomatig, felly rydym yn argymhell eich bod yn rhoi hwn yn y blwch disgrifiad.
  - Y 'mathau o ddigwyddiadau' mwyaf cyffredin a fydd yn berthnasol i chi yw: 'chwaraeon', 'gyda'r nos' ac 'yn ystod y dydd'.
    - Wrth greu'r fersiwn Gymraeg o'ch digwyddiad, mae'n bwysig eich bod yn mewngofnodi i ochr Gymraeg gwefan yr Undeb ac yn sicrhau eich bod yn dewis y blwch Cymraeg yn 'Mathau o Ddigwyddiadau'
  - Defnyddiwch y nodwedd 'aelodau'n unig'; fel hyn dim ond aelodau o'ch clwb/cymdeithas fydd yn gallu gweld y digwyddiad hwn.
5. Cliciwch 'arbed' ac rydych chi wedi gorffen!

